CYNGOR BWRDEISTREF SIROL CAERFFILI

HYSBYSIAD O'R PENDERFYNIADAU O'R CYFARFOD PWYLLGOR CRAFFU ADDYSG A GYNHALIWYD AR MICROSOFT TEAMS DDYDD MAWRTH 2 TACHWEDD 2021 AM 5.30 P.M.

YN BRESENNOL:

Cynghorwyr: Mrs E. M. Aldworth, C. Andrews (Is-gadeirydd), P. J. Bevan, A. Collis, A. Farina-Childs, Ms J. Gale, D. Havard, M. P. James, B. Miles, Mrs T. Parry (Cadeirydd), A J. E. Roberts.

Aelod Cabinet: Y Cynghorydd R. Whiting (Aelod Cabinet dros Ddysgu a Hamdden).

Swyddogion: R. Edmunds (Cyfarwyddwr Corfforaethol ar gyfer Addysg a Gwasanaethau Corfforaethol), S. Richards (Pennaeth Cynllunio a Strategaeth Addysg), K. Cole (Prif Swyddog Addysg), P. Warren (Arweinydd Strategol ar gyfer Gwella Ysgolion), A. West (Rheolwr Ysgolion yr 21ain Ganrif), L. Thomas (Ysgolion yr 21ain Ganrif - Prif Swyddog), P. O'Neill (Rheolwr Gwasanaeth Ieuenctid), S. Mutch (Rheolwr Blynyddoedd Cynnar), M. Jacques (Swyddog Craffu), S. Hughes (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor) a J. Lloyd (Swyddog Gwasanaethau Pwyllgor).

Hefyd yn bresennol:

Aelodau Cyfetholedig: Mr M. Western (Cynrychiolydd Comisiwn Archesgobaethol Eglwys Uniongred Rwsia Caerdydd dros Addysg) a Mrs T. Millington (Cynrychiolydd Rhiant-lywodraethwr).

Hefyd yn bresennol:

Cynrychiolwyr y Gwasanaeth Ieuenctid.

YMDDIHEURIADAU:

Cynghorwyr: W. David, D. T. Hardacre, Mrs B. A. Jones, Mrs G. D. Oliver a J. Simmonds.

Mae'r penderfyniadau a'r datganiadau o fuddiant wedi'u nodi isod. Am ragor o fanylion, cyfeiriwch at yr adroddiad perthnasol.

EITEM	PWNC	PENDERFYNIAD	PLEIDLAIS
2.	Datganiadau o fuddiant.	Ni chafwyd unrhyw ddatganiadau o fuddiant.	Ddim yn berthnasol
3.	Cymeradwyo a llofnodi'r cofnodion canlynol: Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 21 Medi 2021.	Cymeradwywyd cofnodion cyfarfod y Pwyllgor Craffu Addysg a gynhaliwyd ar 21 Medi 2021 fel cofnod cywir.	10 dros 0 yn erbyn 1 ymatal
4.	Ystyried unrhyw fater a gyfeirir at y Pwyllgor hwn yn unol â'r weithdrefn galw i mewn.	Nid oedd unrhyw faterion wedi'u galw i mewn.	Ddim yn berthnasol
5.	Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg.	Yn dilyn ystyried yr adroddiad, ac yn amodol ar y adroddiadau ychwanegol a gynigiwyd, cynigiwyd ac eiliwyd cymeradwyo'r argymhellion. Cytunwyd ar hyn yn unfrydol drwy	12 dros 0 yn erbyn 0 Ymatal

		ddefnyddio Microsoft Forms i bleidleisio. PENDERFYNWYD cyhoeddi Blaenraglen Waith y Pwyllgor Craffu Addysg ar wefan y Cyngor.	
6.	Cael ac ystyried yr adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr Agenda.	Ni chafodd unrhyw un o'r adroddiadau i'r Cabinet a restrir ar yr agenda eu galw ymlaen i'w drafod yn y cyfarfod.	Ddim yn berthnasol
7.	Rhaglen Band B Ysgolion a Cholegau'r 21ain Ganrif - Ymgynghoriad mewn perthynas â Chynigion ar gyfer Ysgol Iau Llancaeach/Ysgol Fabanod Llanfabon, Ysgol Gynradd Plasyfelin a Chanolfan ar gyfer Dysgwyr sy'n Agored i Niwed.	Nododd y Pwyllgor Craffu Addysg yr wybodaeth a gynhwyswyd yn yr adroddiad a'r pecynnau ymgynghori. Darparodd yr aelodau eu barn yn rhinwedd eu rôl fel 'ymgynghorwyr' fel rhan o'r prosesau ymgynghori sy'n cael eu dilyn ar gyfer pob un o'r 3 chynnig. Yn dilyn ystyried yr adroddiad, cynigiwyd ac eiliwyd gymeradwyo'r argymhellion. Pleidleisiodd y Pwyllgor Craffu Addysg ar bob cynnig ar wahân, a fydd yn cael eu nodi fel rhan o gofnodion y cyfarfod a'u cynnwys yn yr adroddiadau perthnasol ar gyfer cyflwyno pob cynnig i'r Cabinet fel rhan o'r broses benderfynu. Drwy ddefnyddio Microsoft Forms i bleidleisio, PENDERFYNNWYD bod y Pwyllgor Craffu Addysg yn cefnogi'r cynigion unigol a amlinellir isod: (i) Cyfuno Ysgol Iau Llancaeach ac Ysgol Fabanod Llanfabon i greu darpariaeth ysgol gynradd newydd ar safle presennol Ysgol Fabanod Llanfabon. (ii) Ysgol Gynradd Plasyfelin newydd ar y safle presennol. (iii) Sefydlu Canolfan ar gyfer Disgyblion sy'n Agored i Niwed (Uned Atgyfeirio Disgyblion) ar hen safle Ysgol Gyfun Pontllan-fraith.	12 dros 0 yn erbyn 0 ymatal 12 dros 0 yn erbyn 0 ymatal 13 dros 0 yn erbyn 0 ymatal
8.	Diweddariad ar Beilot y Gwasanaeth Ieuenctid - Cyflwyniad	Nododd y Pwyllgor Craffu Addysg y cyflwyniad.	Ddim yn berthnasol
9.	Cynllun Strategol Cymraeg mewn Addysg 2022-2032.	Nododd y Pwyllgor Craffu Addysg Gynllun Strategol Cymru mewn Addysg fel rhan o'r broses ymgynghori a rhoddodd sylwadau ynghylch digonolrwydd gwybodaeth a thargedau i gyflawni'r meysydd	Ddim yn berthnasol

		canlyniad a chyrraedd y targed lleiaf o 26% yng ngharfan blwyddyn 1 erbyn 2032.	

Cylchrediad:

Cyhoeddwyd yn electronig erbyn 5.00pm ddydd Llun 8 Tachwedd 2021.